**CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU**

Cynhaliwyd cyfarfod o Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru drwy fideogynhadledd ar 15 Mehefin 2020.

**Yn bresennol:**

Aelodau yn rhinwedd eu swyddi

*Archesgob Cymru*
Y Parchedicaf J D E Davies

*Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog*
Mrs E M Perkins

*Cadeiryddion Byrddau Cyllid Esgobaethau:*

| | |
|---|---|
| Llanelwy: | Mrs H R Jones |
| Bangor: | Yr Hybarch M K R Stallard |
| Tyddewi: | Mr N C P Griffin |
| Llandaf: | Mr M A Lawley |
| Mynwy: | Mr P E Lea |
| Abertawe ac Aberhonddu | Syr E P Silk |

Aelodau etholedig

| | |
|---|---|
| Llanelwy: | Y Gwir Barchedig N H Williams, Mrs H Wiseman |
| Bangor: | Y Gwir Barchedig K L Jones, Dr H Parry-Smith |
| Tyddewi: | Mrs J A P Hayward, yr Hybarch P R Mackness |
| Llandaf: | Mr G I Moses, yr Hybarch C B W Smith |
| Mynwy: | Miss P R Brown, yr Hybarch J S Williams |
| Abertawe ac Aberhonddu | Yr Hybarch A N Jevons |

Aelodau enwebedig

Mr J J Turner (Cadeirydd)
Mr R Davies

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mr Peter Kennedy, Mr T O S Lloyd a Mr T J P Davenport.

**Yn bresennol:** Roedd yr aelodau staff canlynol yn bresennol:
Ysgrifennydd y Dalaith, y Pennaeth Cyllid, Dirprwy Bennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo, y Swyddog Llywodraethu a'r Swyddog Cyllid a Llywodraethu. Roedd y Rheolwr Diogelu yn bresennol ar gyfer eitem 20/53.

**Gweddïau:** Arweiniwyd y gweddïau agoriadol gan yr Hybarch Jonathan Williams, Archddiacon Casnewydd.

**Gwrthdaro buddiannau:** Datganodd yr holl glerigion a oedd yn bresennol fod ganddynt fuddiant yn yr Adolygiad o Dâl Clerigion (eitem 20/49), pennu cyflogau ar gyfer 2021 (eitem 20/50) a phennu lefelau ffioedd plwyfi ar gyfer 2021 (eitem 20/52). Datganodd deoniaid ac archddiaconiaid y cadeirlannau a oedd yn bresennol fuddiant yn y drafodaeth ar ariannu cadeirlannau (eitem 20/47): nodwyd na fyddent yn elwa'n ariannol yn bersonol o unrhyw benderfyniadau.

**Aelodaeth Corff y Cynrychiolwyr**
20/38

Dywedodd y Swyddog Llywodraethu fod lle gwag ychwanegol ar gael o fewn aelodaeth gyfetholedig Corff y Cynrychiolwyr yn dilyn marwolaeth drist Mr Lyn James yn ddiweddar. Roedd y ddau le o fewn yr aelodaeth gyfetholedig nawr yn wag.

Gan fod y cyfnod aelodaeth tair blynedd ar fin dod i ben (ar 31 Rhagfyr 2020), cytunodd Corff y Cynrychiolwyr y byddai'n oedi gwneud penderfyniadau am gyfethol aelodau ychwanegol hyd nes dechrau'r tair blynedd newydd.

Dywedodd y Cadeirydd mai ef oedd yr unig aelod o Gorff y Cynrychiolwyr ar y Pwyllgor Buddsoddi wedi marwolaeth Lyn James. Roedd meini prawf aelodaeth y Pwyllgor Buddsoddi yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddau o'r aelodau fod yn aelodau o Gorff y Cynrychiolwyr hefyd a hyd nes y byddai aelod ychwanegol o'r ymddiriedolwyr yn cael ei benodi i'r Pwyllgor Buddsoddi, eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi gwahodd Dirprwy Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr, Syr Paul Silk a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Mr Geoff Moses, i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Buddsoddi i sicrhau bod busnes y Pwyllgor yn cael ei gynnal ym mhresenoldeb ymddiriedolwyr ychwanegol.

**Cofnodion cyfarfod 5 Mawrth 2020 a 27 Ebrill 2020**
20/39

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir. Byddai'r cofnodion yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd cyn gynted â phosibl ar ôl i gyfyngiadau symud COVID-19 gael eu llacio. Nodwyd gwahanol faterion yn codi o'r cofnodion.

**Crynodeb o weithgareddau pwyllgorau**
20/40

Atgoffodd y Swyddog Llywodraethu fod system ddiwygiedig wedi'i chyflwyno'n ddiweddar ar gyfer adrodd am weithgareddau pwyllgorau Corff y Cynrychiolwyr.

Nododd Corff y Cynrychiolwyr y diweddariadau a ddarparwyd gan bob un o'i bwyllgorau.

**Diweddariad ar y gofrestr risg**
20/41

Dywedodd Ysgrifennydd y Dalaith fod y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cynnal ei adolygiad interim arferol o'i gofrestr risg yn ei gyfarfod ar 1 Mehefin.

<u>Pandemig COVID-19</u>

Yn sgil pandemig COVID-19 roedd y Pwyllgor wedi ystyried pedair risg yn arbennig:

- Risg 1 – gostyngiad yn niferoedd cynulleidfaoedd;
- Risg 4 – strwythur trefniadol yr Eglwys yng Nghymru;
- Risg 15 – cyfanswm elw gwael ar fuddsoddiadau Corff y Cynrychiolwyr o ganlyniad i ddigwyddiadau economaidd; a
- Risg 17 – ansolfedd esgobaeth.

O ganlyniad i drafodaethau'r Pwyllgor, nododd Ysgrifennydd y Dalaith fod yr asesiadau hanfodol a gweddilliol ar gyfer y risgiau hyn nawr yn cael eu hystyried yn rhai 'uchel'. Nid oedd unrhyw risg yn ymwneud yn benodol â'r pandemig wedi'i gynnwys yn y gofrestr risg ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei adolygu.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y byddai'n briodol ychwanegu risg yn ymwneud yn benodol â llesiant clerigion at y gofrestr risg.

Byddai'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnal ei adolygiad blynyddol manwl o'r gofrestr risg yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2020 gyda'r risgiau mwyaf sylweddol yn cael eu trafod gan Gorff y Cynrychiolwyr yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2020. Atgoffodd Ysgrifennydd y Dalaith yr aelodau fod y gofrestr risg yn ddogfen fyw a bod uwch staff y dalaith yn ymwneud â hi'n rheolaidd.

Risgiau newydd

Eglurodd Ysgrifennydd y Dalaith fod y Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd wedi cymeradwyo cyflwyno dwy risg newydd i'r gofrestr risg, risg a oedd yn gysylltiedig ag Athrofa Padarn Sant. Roedd y risgiau newydd yn ymwneud â:

- Cwynion academaidd – lle gall pryderon am safonau academaidd a sicrwydd ansawdd arwain at golli achrediad a chyllid;
- Dod â chyrsiau i ben – lle byddai yna oblygiadau ariannol neu enw da i ddod â chwrs i ben.

Roedd yr asesiadau hanfodol a gweddilliol o'r ddwy risg wedi'u nodi fel rhai 'isel'.

Datblygiadau'r dyfodol

Dywedodd Ysgrifennydd y Dalaith fod y gofrestr risg wedi'i thrafod gyda'r archwilydd allanol, Haysmacintyre, a argymhellodd ddau welliant i'r arferion cyfredol.

Yn gyntaf, dylid cynnwys dadansoddiad o archwaeth risg Corff y Cynrychiolwyr yn y gofrestr. Nodwyd bod llawer o sefydliadau yn ei chael hi'n anodd asesu ac yna i fynegi'n groyw eu harchwaeth am risg ond byddai'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn trafod hyn, a'r fethodoleg ar gyfer asesu parodrwydd i dderbyn risg, yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2020.

Byddai cynhyrchu map gwres risg hefyd yn cael ei ystyried a'i drafod gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Crynodeb

Yn dilyn trafodaeth fanwl, nododd Corff y Cynrychiolwyr y diwygiadau i'r gofrestr risg.

**Sefyllfa ariannol Corff y Cynrychiolwyr a'r esgobaethau**
20/42

Cyflwynodd Ysgrifennydd y Dalaith bapur cynhwysfawr yn nodi sefyllfa ariannol gyfredol Corff y Cynrychiolwyr ac, yn dilyn ymgynghori ag ysgrifenyddion yr esgobaethau, yr esgobaethau. Nodwyd bod ysgrifenyddion yr esgobaethau a Chadeiryddion byrddau cyllid yr esgobaethau wedi cyfarfod ar 3 Mehefin 2020 i gael y diweddaraf am y sefyllfa ariannol oedd yn datblygu, a'r effaith ar sefyllfa ariannol y dalaith a'r esgobaethau.

Y sefyllfa ariannol gyffredinol

Cadwodd staff y dalaith mewn cysylltiad agos â'r rheolwyr buddsoddi ac mae rhagolygon incwm diwygiedig wedi'u paratoi. Nodwyd bod gwerth daliadau Corff y Cynrychiolwyr yn y gyfnewidfa stoc wedi gwella rhywfaint ers dechrau'r pandemig, ond bod anwadalrwydd parhaus yn y farchnad stoc yn golygu bod y sefyllfa ymhell o fod yn sefydlog ac roedd hollt rhwng gwerthoedd y farchnad a'r economi mewn gwirionedd yn bosibilrwydd gwirioneddol ar hyn o bryd: roedd aflonyddwch pellach, a cholledion gwerth, yn ddisgwyliedig.

Y sefyllfaoedd mewn esgobaethau

Roedd pob esgobaeth wedi cydnabod pwysigrwydd sylweddol y cymorth ariannol a ddarparwyd iddynt gan Gorff y Cynrychiolwyr ar gyfer Chwarter 2 ac roedd yr esgobaethau wedi nodi sut roeddynt yn defnyddio'r cymorth hwn, o fewn yr egwyddorion a nodwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2020 (cofnod 20/32). Pwysleisiwyd pwysigrwydd parhau i ddarparu cymorth ariannol yng nghyfarfod ysgrifenyddion yr esgobaethau a Chadeiryddion Byrddau Cyllid yr Esgobaethau.

Nodwyd y cynnydd mewn cyfraniadau gan blwyfi drwy system Rhodd Uniongyrchol yr Eglwys yng Nghymru a byddai esgobaethau'n galw am ddatblygu'r math hwn o roi ymhellach.

Cymorth ariannol pellach

Ar sail trafodaethau gydag esgobaethau, y ffaith fod adeiladau eglwysig yn parhau i fod ar gau a bod addoli cyhoeddus wedi dod i stop am y tro yn ogystal â'r sefyllfa economaidd ansicr a oedd yn wynebu esgobaethau, bu Corff y Cynrychiolwyr yn trafod cynnig i ailadrodd y cymorth ariannol a ddarparodd i esgobaethau ar gyfer Chwarter 2 yn Chwarter 3.

Nododd Ysgrifennydd y Dalaith y byddai darpariaeth o'r fath yn golygu, gyda'r gostyngiad arfaethedig mewn incwm, y byddai'r cynnydd pellach hwn mewn gwariant yn golygu diffygion blynyddol o tua £11 miliwn i Gorff y Cynrychiolwyr yn 2020 a thua £8 miliwn yn 2021. Hefyd, pe bai'n rhaid ildio daliadau'r gyfnewidfa stoc i gael arian parod ychwanegol, byddai hyn yn cael effaith gronnus ar botensial asedau buddsoddi Corff y Cynrychiolwyr i greu incwm buddsoddi a thwf cyfalaf yn y dyfodol.

Trafodaeth

Cafwyd trafodaeth fanwl ar y cynnig ac fe gydnabu'r aelodau arwyddocâd y cymorth a ddarparwyd ar gyfer Chwarter 2 a'r effaith gadarnhaol yr oedd hyn wedi'i chael ar weithgareddau'r esgobaethau a'r ymwneud rhwng esgobaethau a phlwyfi: roedd ymrwymiad y dalaith wedi helpu ysbryd sgyrsiau gyda phlwyfi, yn enwedig y rhai a oedd yn ei chael hi'n anodd cyflawni eu hymrwymiadau cyfrannu fel plwyfi. Cydnabuwyd cyfraniad hanfodol asedau Corff y Cynrychiolwyr i helpu adferiad yr Eglwys yng Nghymru o effeithiau'r pandemig.

Teimlwyd mai canolbwyntio ar ddarparu cymorth ar gyfer Chwarter 3 oedd y peth gorau i'w wneud ar y pwynt hwn. Byddai angen bwrw golwg gliriach o'r sefyllfa economaidd yn yr hydref cyn ystyried darparu cymorth pellach ar gyfer Chwarter 4, a thu hwnt. Erbyn hynny, y gobaith oedd y byddai adeiladau eglwysig yn gallu ailagor i ryw raddau.

Pe bai cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu yn Chwarter 4 a thu hwnt, mynegodd rhai aelodau bod angen ei ystyried mewn ffordd ychydig yn wahanol, gyda phosibiliadau'n cynnwys ei dargedu at yr ardaloedd tlotaf yn arbennig; neu ar sail egwyddorion gwahanol a chyda disgwyliadau gwahanol.

Casgliad

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Corff y Cynrychiolwyr i:

i. Darparu'r un lefel o gymorth ariannol i esgobaethau yn Chwarter 3 ag a ddarparwyd yn Chwarter 2. Yn benodol, ysgwyddo yn hytrach nag adhawlio am yr holl gostau cyflogau a oedd yn ddyledus yn Ch3. (Mae costau cyflogau'n cynnwys cyflogau, cyfraniadau pensiwn, cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwr a'r dreth gyngor. Roedd yr ysgwyddo hwn yn amodol ar:

    a. Byrddau Cyllid Esgobaethau'n cytuno i hepgor talu Grant Bloc Ch3 ac eithrio cyfraniadau Cynllun Bwrdd y Persondai a fydd yn cael ei dalu i'r Byrddau ar 30 Medi 2020.
    b. Byrddau Cyllid Esgobaethau i gymryd camau gweithredol i annog cyfrannu ar-lein ac i gau'r bwlch rhwng incwm a gwariant.
    c. Byrddau Cyllid Esgobaethau i gymryd camau gweithredol i gasglu cyfran plwyfi yn ystod Ch3.

ii. Cyfarfod eto yn ystod hydref 2020 i drafod ac i wneud penderfyniadau pellach am ddarparu unrhyw gymorth ariannol pellach ar gyfer Chwarter 4.

Fforwm Strategaeth Cyllid

Nododd Ysgrifennydd y Dalaith fod y Cyd-gyfarfod Cyllid blynyddol â'r esgobion ac ysgrifenyddion esgobaethau'n cael ei gynnal cyn cyfarfod Corff y Cynrychiolwyr ym mis Mehefin bob blwyddyn fel arfer. Roedd y cyfarfod wedi'i ohirio i roi mwy o amser i'r sefyllfa economaidd ddod yn gliriach er mwyn llywio ystyriaeth Corff y Cynrychiolwyr o'i ymrwymiadau ariannol ar gyfer y dyfodol.

Bwriedir cynnal y cyfarfod hwn ddechrau mis Medi a byddai'n cael ei ailenwi y Fforwm Strategaeth Cyllid. Yn y cyfarfod hwnnw byddai'n rhaid trafod nifer o faterion ariannol arwyddocaol a oedd yn effeithio ar yr Eglwys yng Nghymru, yn cynnwys lefelau'r Grant Bloc ar ôl 2021; trefniadau ariannu cadeirlannau; yr Adolygiad o Dâl Clerigion; a chyllido'r Gronfa Efengylu yn y dyfodol. Byddai'n rhaid i'r trafodaethau gael eu cynnal o fewn cyd-destun effaith economaidd COVID-19 a'r lefelau incwm is o ganlyniad yn y tymor canolig.

I gydnabod y newid mewn amodau ariannol, byddai'r gyllideb ar gyfer 2021 yn gyllideb seiliedig ar sero. Byddai angen ffurfio'r gyllideb honno yng nghyd-destun blaenoriaethau ariannol yr Eglwys yng Nghymru: byddai cyfarfod y Fforwm Strategaeth Cyllid yn allweddol i drafod a mynegi beth ddylai gael eu pennu fel blaenoriaethau ariannol.

**Adroddiad Canfyddiadau'r Archwiliad**
20/43

Croesawodd y Cadeirydd Mr Adam Halsey, Partner yn Haysmacintyre, a Vikram Sandhu, Rheolwr Archwilio yn Haysmacintyre, i'r cyfarfod. Cyflwynodd Mr Halsey yr adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad, gan egluro er bod yr archwiliad wedi'i gynnal o bell yn sgil cyfyngiadau symud COVID-19, ei bod wedi bod yn broses ddi-dor yn sgil system rheoli cyfrifon electronig Xledeger.

Tynnodd Mr Halsey sylw'r aelodau at y ffaith fod unrhyw faterion a godwyd yn yr adroddiad naill ai o bryder cyfyngedig neu'n rhai cynghorol a bod yr archwiliad yn archwiliad diamod.

Roedd y mesurau lliniaru COVID-19 a oedd ar waith yn foddhaol ac wedi'u mynegi'n briodol yn y cyfrifon.

Eglurodd Mr Halsey ei bod hi'n bwysig sicrhau bod cyfansoddiad a dyraniad asedau Corff y Cynrychiolwyr yn cael eu cyfathrebu'n glir, yn cynnwys esbonio ei bolisi cronfeydd wrth gefn. Byddai hyn yn sicrhau bod sefyllfa ariannol Corff y Cynrychiolwyr yn cael ei mynegi mewn modd ystyrlon ac yn galluogi'r Eglwys yn ehangach i ddeall statws ei hasedau. Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn gweithio ar ddatblygu polisi cronfeydd wrth gefn a oedd yn mynegi pwysigrwydd cydbwyso anghenion y presennol heb niweidio'n ddiangen gynhyrchiant incwm y dyfodol yn ogystal â rhoi'r lle blaenaf i'r Cynllun Pensiwn Clerigion o fewn y gronfa fuddsoddi gyffredinol.

Yn dilyn cyflwyniad yr archwilydd gadawodd holl staff y dalaith a oedd yn bresennol y cyfarfod er mwyn i'r archwilwyr allu cyfarfod â'r ymddiriedolwyr ar eu pen eu hunain.

Nododd Mr Geoff Moses, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, fod y Pwyllgor wedi adolygu adroddiad yr archwilydd ac nad oedd ganddynt unrhyw beth i'w ychwanegu.

Cafodd y penderfyniad canlynol ei gynnig a'i basio'n unfrydol:

*Bod Adroddiad Canfyddiadau'r Archwiliad yn cael ei dderbyn.*

Cafodd gwaith a chymorth adran gyllid y dalaith yn ystod yr archwiliad a'r gwaith o baratoi'r adroddiad blynyddol ei gydnabod. Gadawodd Mr Halsey a Mr Sandhu y cyfarfod.

**Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2019**
20/44

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon drafft ar gyfer 2019. Nododd fod y symudiad net mewn cronfeydd ar gyfer y flwyddyn yn £74 miliwn, o ganlyniad i enillion buddsoddi o £87 miliwn yn bennaf. Ar 31 Rhagfyr 2019 cynyddodd cyfanswm cronfeydd Corff y Cynrychiolwyr i £784 miliwn (o £710 miliwn).

Nododd y Pennaeth Cyllid fod 2019 wedi gweld incwm o £21.1 miliwn yn erbyn gwariant o £22.8 miliwn, gan arwain at ddiffyg (cyn enillion buddsoddi a throsglwyddiadau) o £1.7 miliwn. Arweiniodd enillion buddsoddiadau heb eu gwireddu at gynnydd cyffredinol o £52 miliwn yn y Gronfa Gyffredinol.

Cafodd y penderfyniadau canlynol eu cynnig a'u pasio'n unfrydol:

*Bod Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Corff y Cynrychiolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019 yn cael eu cymeradwyo a'u mabwysiadu.*

*Bod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr yn cael eu hawdurdodi i lofnodi'r llythyr cynrychioli ar ran Corff y Cynrychiolwyr.*

**Y Gronfa Fuddsoddi Gyffredin**
20/45

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y cyfrifon drafft ar gyfer y Gronfa Fuddsoddi Gyffredin am 2019, gan gadarnhau bod y Gronfa ar wahân i'r brif gronfa fuddsoddi ac egluro ei bod yn gronfa lle roedd plwyfi'n gallu buddsoddi unrhyw gymynroddau neu ymddiriedolaethau arbennig sydd ganddynt a defnyddio'r incwm a gynhyrchwyd.

Roedd y Gronfa Fuddsoddi Gyffredin yn werth £62.9 miliwn ar 31 Rhagfyr 2019 gyda chyfanswm yr elw hyd 31 Rhagfyr 2019 yn 17.4% (o gymharu ag elw cymharydd Teknometry o 16.1%).

Pwysleisiodd y Pennaeth Cyllid fod y Gronfa Fuddsoddi Gyffredin yn parhau i gael ei gweinyddu a bod incwm wedi bod yn cael ei dalu i blwyfi fel arfer yn ystod y cyfnod clo.

Cafodd y penderfyniad canlynol ei gynnig a'i basio'n unfrydol:

*Bod cyfrifon y Gronfa Fuddsoddi Gyffredin ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019 yn cael eu cymeradwyo a'u mabwysiadu.*

**Y Gronfa Efengylu**
20/46

Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Dalaith nad oedd Pwyllgor y Gronfa Efengylu wedi cyfarfod ers cyfarfod Corff y Cynrychiolwyr ym mis Mawrth 2020: ni ddyfarnwyd unrhyw grantiau pellach ac ni ystyriwyd unrhyw geisiadau pellach (yng ngham cyntaf neu ail gam y broses ymgeisio).

O ystyried y broses ymgeisio ddau gam ac mai dim ond un cyfarfod arall oedd gan y Pwyllgor yn 2020, ni ragwelwyd y byddai unrhyw grantiau pellach yn cael eu dyfarnu yn ystod y flwyddyn. Nid oedd dwy esgobaeth (esgobaethau Mynwy ac Abertawe ac Aberhonddu) wedi cyflwyno ceisiadau cam un i'r Gronfa eto a chadarnhaodd Ysgrifennydd y Dalaith ei fod mewn trafodaethau â'r esgobaethau hynny.

<u>Cyllido'r Gronfa Efengylu</u>

Ar hyn o bryd, mae £161,616 yn weddill o gyfanswm y Gronfa Efengylu o £10 miliwn yn dilyn grantiau a roddwyd i esgobaethau Llanelwy, Bangor, Tyddewi a Llandaf.

Atgoffwyd Corff y Cynrychiolwyr fod ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2019 (cofnod 19/53) wedi nodi y gellid darparu £6 miliwn pellach pe bai angen rhagor o gyllid ar Bwyllgor y Gronfa Efengylu er mwyn dyfarnu grantiau tro cyntaf i esgobaethau, yn unol ag egwyddorion y Gronfa.

Cafwyd trafodaeth bellach ar y mesur hwn. Penderfynodd Corff y Cynrychiolwyr nad oedd yn dymuno newid y ddarpariaeth hon, gan deimlo na fyddai'n deg atal rhoi cyfle i esgobaethau Mynwy ac Abertawe ac Aberhonddu gyflwyno ceisiadau ystyrlon i'r Gronfa Efengylu. Ni fyddai ail geisiadau gan esgobaethau yn cael eu derbyn am y tro.

Nodwyd y byddai'n rhaid ildio asedau buddsoddi o bosibl i ddarparu'r £6 miliwn hwn o gyllid ychwanegol.

<u>Crynodeb</u>

Yn dilyn trafodaeth fanwl, aeth Corff y Cynrychiolwyr ati i wneud y canlynol:

i. Nodi'r sefyllfa bresennol;
ii. Cymeradwyo ei benderfyniad ym mis Tachwedd 2019 a oedd yn caniatáu i Bwyllgor y Gronfa Efengylu gael hyd at £6 miliwn i ddyfarnu grantiau tro cyntaf i esgobaethau, yn unol ag egwyddorion y Gronfa.

**Ariannu cadeirlannau**
20/47

Rhoddodd yr Archesgob y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael i wneud gan grŵp bach o ymddiriedolwyr a staff y dalaith i asesu trefniadau ariannu cadeirlannau'n fanwl. Roedd y grŵp wedi ymweld â'r chwe chadeirlan yn gynharach eleni.

Er bod y gwahaniaethau rhwng y chwe chadeirlan yn nodedig, roedd themâu cyffredin yn amlygu ac roeddynt yn paratoi adroddiad gydag argymhellion i'w hystyried gan Gorff y Cynrychiolwyr maes o law. Roedd y grŵp o'r farn y dylai penderfyniadau am ariannu cadeirlannau yn y dyfodol gael eu gwneud yng nghyd-destun trafodaeth ehangach am flaenoriaethau'r Eglwys yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cymhlethdodau ariannu'r cadeirlannau'n cael eu deall ac yn cyd-fynd â dyraniad strategol asedau Corff y Cynrychiolwyr yn y dyfodol.

Nododd Corff y Cynrychiolwyr y sefyllfa.

**Llefydd i werthu cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru**
20/48

<u>Siop Lyfrau Eglwysi Ynghyd</u>

Atgoffodd Ysgrifennydd y Dalaith fod Siop Lyfrau Eglwysi Ynghyd, yng Nghaerdydd, wedi stocio a gwerthu'r amrywiaeth o adnoddau sy'n cael eu cyhoeddi gan Gyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Roedd y cysylltiad gyda'r Eglwys yng Nghymru yn gryf gan fod staff y siop yn mynychu llawer o ddigwyddiadau'r dalaith a'r esgobaethau, yn cynnwys cyfarfodydd y Corff Llywodraethol, i werthu llyfrau ac adnoddau eraill. Hefyd, roedd staff TGCh y dalaith wedi darparu cymorth helaeth i'r Siop Lyfrau drwy greu a chynnal gwefan y siop.

Roedd Ysgrifennydd y Dalaith a'r Pennaeth Cyllid wedi cyfarfod cynrychiolwyr y Siop Lyfrau ac wedi clywed nad oedd modd cynnal y siop yn ariannol o bosibl bellach a bod y Cyfarwyddwyr yn ystyried a oedd hi'n amser i gau'r siop a dirwyn y cwmni i ben. Pe baent yn dewis yr opsiwn hwn roedd hi'n bosibl na fyddai gan y busnes ddigon o arian i dalu'r costau cau yn llawn.

Roedd gohebiaeth ddilynol gan y Cyfarwyddwyr at Ysgrifennydd y Dalaith wedi gofyn am fenthyciad o £6,000 gan Gorff y Cynrychiolwyr er mwyn i'r Siop Lyfrau allu cau yn drefnus.

Dywedodd Ysgrifennydd y Dalaith nad oedd Siop Lyfrau Eglwysi Ynghyd yn rhan gyfreithiol o Gorff y Cynrychiolwyr ond bod yna berthynas agos rhwng y siop a'r Eglwys yng Nghymru ac na fyddai methiant y Siop Lyfrau i gau y cyfan yn drefnus o unrhyw fudd i Gorff y Cynrychiolwyr na'r Eglwys yng Nghymru yn ehangach.

<u>Logisteg Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru</u>

Eglurodd Ysgrifennydd y Dalaith fod cau Siop Lyfrau Eglwysi Ynghyd yn creu rhai problemau logistaidd o ran storio a dosbarthu'r deunyddiau argraffedig sy'n cael eu cynhyrchu gan Gyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru. Nid oedd swyddfa'r dalaith yn addas i weithredu fel lleoliad ar gyfer gwerthu'r adnoddau hyn, ac nid oedd digon o le i storio gwerthiant ar-lein chwaith.

Yn dilyn trafodaeth gyda'r Grŵp Cynghori Adnoddau Addoli (WRAG), roedd y Pennaeth Cyfathrebu a Thechnoleg wedi cychwyn trafodaethau â chwmni i ddarparu cyfleuster gwerthu'r

llithlyfr ar-lein a dros y ffôn, ynghyd â gwasanaeth storio stoc a dosbarthu. Roedd hi'n bosibl y byddai modd ehangu'r gwasanaeth hwn i gynnig gwasanaethau tebyg i ddeunyddiau argraffedig yr Eglwys yng Nghymru, rhywbeth a fyddai'n cael ei asesu ynghyd ag opsiynau posibl eraill, yn cynnwys argraffu yn ôl y galw, cyhoeddiadau digidol yn unig ac opsiynau storio a dosbarthu eraill.

Trafodaeth

Yn ystod y drafodaeth ganlynol cafodd y cyfraniad a wnaeth Siop Lyfrau Eglwysi Ynghyd i'r Eglwys yng Nghymru, yn enwedig ei phresenoldeb yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethol ac mewn cynadleddau esgobaethau, ei gydnabod yn werthfawrogol. Byddai'n gadael bwlch mawr ar ei hôl.

Teimlwyd hefyd y gellid defnyddio siopau'r cadeirlannau fel hybiau lleol ar gyfer stocio a dosbarthu adnoddau argraffedig, rhywbeth a allai adfywio'r cyfraniadau y mae'r siopau hyn yn eu gwneud i'r dalaith yn ogystal ag esgobaethau.

Crynodeb

Yn dilyn trafodaeth, aeth Corff y Cynrychiolwyr ati i wneud y canlynol:

i. Awdurdodi'r Pennaeth Cyllid i gytuno ar hyd at £6,000 o gymorth ariannol i Siop Lyfrau Eglwysi Ynghyd;
ii. Nodi ystyriaethau sydd ar y gweill ynghylch darparu trefniadau storio a dosbarthu newydd ar gyfer deunyddiau Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru.

**Adolygiad o Dâl Clerigion**
20/49

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ddiweddariad llafar ar waith y grŵp gweithredu a benodwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr i baratoi costau, amcanestyniadau ariannol ac opsiynau ar gyfer gweithredu'r argymhellion gydag adroddiad Gweithgor yr Adolygiad o Dâl Clerigion 2019 *Cefnogi Cenhadaeth yr Eglwys yng Nghymru yn yr 21ain Ganrif*.

Roedd gwaith y grŵp gweithredu wedi gorfod dilyn y cyfyngiadau a bennwyd yn sgil pandemig COVID-19, ac roedd y grŵp wedi ailystyried ei amserlen ar gyfer gweithredu. Roedd y dyddiad gweithredu wedi'i fwrw ymlaen chwe mis i 1 Gorffennaf 2022 ac roedd y grŵp yn gobeithio cyflwyno ei adroddiad i Gorff y Cynrychiolwyr ei ystyried yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2020.

Eglurodd Cadeirydd y grŵp gweithredu, Mrs Hilary Wiseman, fod amserlen y grŵp yn caniatáu amser i ymgynghori â chlerigion.

Nododd Corff y Cynrychiolwyr y sefyllfa.

**Dyfarniadau cyflogau a thâl 2021**
20/50

Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y Pwyllgor Pobl wedi tafod y dyfarniadau cyflogau a thâl blynyddol yn ei gyfarfod ar 6 Mai 2020. Atgoffwyd yr aelodau bod Corff y Cynrychiolwyr wedi cyflwyno polisi ym Mehefin 2015 o seilio cynyddiadau blynyddol ar ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a gyhoeddwyd ar gyfer y mis Ebrill cyn y mis Ionawr lle byddai'r cynnydd yn cael ei weithredu. Roedd y polisi hefyd yn cynnwys opsiwn i ychwanegu 0.5% dewisol i'r ffigur

hwn, mewn ymgynghoriad ag esgobaethau, pe bai'r sefyllfa ariannol ar y pryd yn gofyn am hynny.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid mai 0.8% oedd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Ebrill 2020, ac yn dilyn ymgynghoriad â'r esgobaethau, argymhellodd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gynnydd i lefelau cyflogau o 1 Ionawr 2021.

Yn dilyn trafodaeth, ac yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Pobl, cytunodd Corff y Cynrychiolwyr na fyddai unrhyw gynnydd i lefelau cyflogau'n cael ei gyflwyno o 1 Ionawr 2021. Pleidleisiodd tri aelod yn erbyn y penderfyniad hwn ac ataliodd un ei bleidlais.

Mewn ymateb i gwestiwn gan un aelod, byddai'r Corff yn gofyn am eglurhad ar a oedd gan staff lleyg ar raddfeydd cyflog cynyddrannol hawl i symud i bwynt meingefn nesaf eu graddfa gyflog yn 2021 er gwaethaf y penderfyniad na fyddai'r lefelau cyflogau'n cynyddu. Cytunwyd i atgyfeirio'r mater hwn i'r Pwyllgor Pobl.

**Ffioedd plwyfi gwag 2021**
20/51

Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y Pwyllgor Pobl wedi cynnal ei adolygiad blynyddol o lefelau ffioedd plwyfi gwag. Cymeradwyodd Corff y Cynrychiolwyr argymhelliad y Pwyllgor i beidio â chynyddu ffioedd y plwyfi gwag yn yr Eglwys yng Nghymru o 1 Ionawr 2021.

Cadarnhawyd y ffioedd canlynol ar gyfer plwyfi gwag felly o 1 Ionawr 2021:

| | **Ffi o 1 Ionawr 2021** |
|---|---|
| Clerig sy'n derbyn pensiwn drwy rinwedd gwasanaeth mewn Urddau Eglwysig | £24 |
| Clerig dros 70 oed yn y weinidogaeth ddi-dâl | £24 |
| **Darllenydd trwyddedig (ffi yn daladwy i Gymdeithas y Darllenwyr)** | £24 |

**Ffioedd Plwyfi 2021**
20/52

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod y Pwyllgor Pobl wedi cynnal ei adolygiad blynyddol o lefelau ffioedd plwyfi, gan argymell peidio â gwneud unrhyw newid i lefelau ffioedd plwyfi o 1 Ionawr 2021.

Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Pobl, cytunodd Corff y Cynrychiolwyr na fyddai unrhyw newid yn cael ei weithredu i lefelau'r ffioedd plwyfi o 1 Ionawr 2021, fel y nodir yn y tablau canlynol:

| **Ffioedd Priodas** | **Ffi o 1 Ionawr 2021** |
|---|---|
| **Gwasanaeth priodas** (*yn cynnwys ffi am gyhoeddi'r gostegion*)<br>- Ffi gweinidogaethu (*i'w thalu i'r gweinidog sy'n gwasanaethu*)<br>- Ffi'r eglwys (*i'w thalu i'r Cyngor Plwyf Eglwysig*)<br>- (Cyfanswm y ffi)<br><br>Copi o dystysgrif priodas (*i'w thalu i'r Cyngor Plwyf Eglwysig*) | <br>£195<br>£260<br>£455<br><br>£10 |
| **Cyhoeddi'r gostegion** (*i gynnwys tystysgrif y gostegion*) | £40 |
| **Bendith priodas**<br>- Ffi gweinidogaethu (*i'w thalu i'r gweinidog sy'n gwasanaethu*)<br>- Ffi'r eglwys (*i'w thalu i'r Cyngor Plwyf Eglwysig*)<br>- (Cyfanswm y ffi) | <br>£195<br>£215<br>£410 |

| **Ffioedd angladdau a chladdu** | **Ffi o 1 Ionawr 2021** |
|---|---|
| **Ffi gweinidogaethu** (*i'w thalu i'r gweinidog sy'n gwasanaethu*)<br><br>**Claddu** * (*i'w thalu i'r gweinidog sy'n gwasanaethu*) | £86<br><br>£22 |
| **Ffi'r eglwys** (*i'w thalu i'r Cyngor Plwyf Eglwysig*) | £108 |
| **Ffi claddu mewn mynwent yr Eglwys yng Nghymru**<br>- Corff<br>- Gweddillion amlosgi (*i'w thalu i'r Cyngor Plwyf Eglwysig ar gyfer y Gronfa Cynnal a Chadw Mynwentydd*) | <br>£482<br>£161 |
| **Ffi cofeb**<br>- Croesbren blaen<br>- Carreg fedd<br>- Tabled gweddillion amlosgi<br>- Arysgrif ychwanegol (*i gyd i'w talu i'r Cyngor Plwyf Eglwysig ar gyfer y Gronfa Cynnal a Chadw Mynwentydd*) | <br>£24<br>£182<br>£97<br>£43 |
| **Chwilio drwy gofrestri claddedigaethau** (*i'w thalu i'r Cyngor Plwyf Eglwysig*) | £22 per hour (neu ran ohoni) |

** Ar gyfer claddu yn dilyn gwasanaeth claddu yn rhywle arall, lle'r oedd gweinidog gwahanol yn gwasanaethu.*

Nododd Corff y Cynrychiolwyr y byddai'r Pwyllgor Pobl yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o ffioedd plwyfi.

Mewn ymateb i gwestiwn am gyfraniad Llywodraeth Cymru i gymeradwyo ffioedd claddu, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol nad oedd angen cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru gan nad oedd unrhyw gynyddiadau'n cael eu cynnig i'r ffioedd cymeradwy cyfredol.

Ffioedd gwasanaethau coffa

Yn dilyn gwaith cychwynnol a wnaed gan y Pwyllgor Pobl, ystyriodd Corff y Cynrychiolwyr y trefniadau ffioedd ar gyfer gwasanaethau coffa. Roedd gofynion cadw pellter cymdeithasol wedi golygu bod rhaid cyfyngu ar niferoedd y galarwyr oedd yn cael mynychu gwasanaethau angladdol yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd hi'n bosibl felly, pan fyddai addoli cyhoeddus yn cael ailddechrau mewn ffordd lai cyfyngedig, y byddai gwasanaethau coffa'n cael eu trefnu i'r rhai yr oedd eu hangladdau wedi'u cynnal o dan gyfyngiadau o'r fath. Mynegwyd pryder nad oedd codi ffioedd ychwanegol ar gyfer gwasanaethau coffa dilynol lle roedd teuluoedd wedi gorfod talu ffi am angladd eisoes yn briodol ac y gallai arwain at anawsterau ym mherthynas teuluoedd sy'n galaru â chymunedau eglwysig lleol pe ceid yr argraff bod yr eglwys leol neu'r gweinidog yn elwa ar bandemig COVID-19 drwy fanteisio ar y cyfle i fynnu ffioedd pellach.

Cafwyd trafodaeth eang yn dilyn hyn. Er bod Corff y Cynrychiolwyr yn cydnabod y pryder o godi ffioedd eilwaith, roedd hefyd yn ymwybodol nad oedd y cysyniad o gynnal gwasanaethau coffa yn ogystal â gwasanaeth angladd bach yn un newydd. Hefyd, roedd gwasanaethau coffa yn aml yn cael eu cynnal ar adeg wahanol i'r angladd ac mewn mannau gwahanol gyda swyddogion gwahanol: nid oedd codi ffioedd am eu cynnal wedi achosi cymhlethdodau diangen o ganlyniad ac ni fu'n rhaid gwneud darpariaeth arbennig o fewn y strwythur ffioedd.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai'r trefniadau ffioedd ar gyfer gwasanaethau coffa (ffioedd eglwysi a ffioedd gweinidogaeth), a chyflwyno nodiadau esboniadol eglurhaol, yn cael ystyriaeth fanwl, bellach. Awdurdododd Corff y Cynrychiolwyr Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr i gymeradwyo'r cynigion manwl maes o law.

**Polisi Diogelu**
20/53

Dywedodd y Swyddog Diogelu fod y Pwyllgor Pobl wedi cymeradwyo cynllun ar gyfer datblygu Polisi Diogelu newydd i'r dalaith yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2020, a fyddai'n cyflawni'r ymrwymiad a wnaed i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol y byddai polisi diwygiedig yn barod i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2020.

Roedd y Grŵp Cynghori ar Ddiogelu wedi cefnogi'r Pwyllgor Pobl i ddatblygu'r polisi newydd.

Eglurodd y Rheolwr Diogelu fod y polisi diwygiedig yn cael ei weld fel datganiad polisi cryno a oedd yn cael ei ategu gan gatalog helaeth o ddogfennau gweithdrefnol a chanllaw unigol.

Roedd y polisi'n nodi ymrwymiad yr Eglwys yng Nghymru i sicrhau bod pawb a oedd yn addoli ac yn cymryd rhan ym mywyd yr Eglwys yng Nghymru'n gallu gwneud hynny'n ddiogel, ac i ddarparu hyfforddiant a chymorth priodol fel bo angen i'r rhai mewn cymunedau eglwysig a oedd yn ymrwymedig i weithio mewn modd a oedd yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth angenrheidiol ar ddiogelu ac arferion da.

Cymeradwyodd Corff y Cynrychiolwyr y Polisi Diogelu newydd a fyddai'n cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Corff Llywodraethol yn ei gyfarfod ym mis Medi 2020. Ar y pwynt hwnnw byddai'n dod yn Bolisi Diogelu swyddogol y dalaith, a'r unig bolisi ar y mater hwn.

**Grŵp Cynghori ar Ddiogelu**
20/54

Atgoffodd Ysgrifennydd y Dalaith Gorff y Cynrychiolwyr ei fod wedi cymeradwyo nifer o ddiweddariadau i bwerau a dyletswyddau'r Pwyllgor Pobl yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2020

(cofnod 20/17), a oedd yn cynnwys ffurfio Grŵp Cynghori ar Ddiogelu a fyddai'n darparu cyngor arbenigol ar holl faterion diogelu i'r Pwyllgor Pobl. Mae'r Grŵp yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Pobl.

Roedd y Grŵp Cynghori ar Ddiogelu wedi cyfarfod am y tro cyntaf ym mis Mai 2020 ac eisoes wedi cael effaith o ran yr arweiniad roedd wedi'i ddarparu i ddiweddaru Polisi Diogelu'r dalaith.

Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt i nodi Cadeirydd addas ar gyfer y Grŵp ac awdurdododd Corff y Cynrychiolwyr Gadeirydd y Pwyllgor Pobl i gymeradwyo penodiad y Cadeirydd. Pan fyddai'r penodiad yn cael ei wneud byddai'n cael ei gyfathrebu i holl aelodau'r Pwyllgor Pobl ac aelodau Corff y Cynrychiolwyr a'i gynnwys yn adroddiad Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr i'r Corff Llywodraethol.

**Cyfraniadau y Bwrdd Persondai 2021**
20/55

Atgoffodd Cadeirydd y Pwyllgor Eiddo, Mr Rod Davies, fod y Pwyllgor Eiddo'n adolygu ac yn ystyried bob blwyddyn beth yw'r isafswm priodol o wariant y dylai byrddau persondai'r esgobaethau ei wario i gynnal a thrwsio persondai bob blwyddyn.

Cadarnhaodd Mr Davies fod y Pwyllgor Eiddo wedi trafod cyfraniadau'r Bwrdd Persondai ar gyfer 2021 yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin, gan nodi bod rhagfynegiadau'r diwydiant ar gyfer twf costau yn ystod 2020 a 2021 yn ddi-nod a bod y cynnydd o 4% i gyfraniadau'r Bwrdd Persondai a weithredwyd ym mis Ionawr 2020 ychydig ar y blaen i'r cynnydd gwirioneddol mewn costau.

Roedd y Pwyllgor Eiddo felly wedi cytuno i argymell i Gorff y Cynrychiolwyr na ddylid gweithredu unrhyw gynnydd i gyfraniadau'r Bwrdd Persondai yn 2021 gyda chyfraniadau yn aros ar isafswm o £5,535 y persondy ar gyfer 2021.

Yn unol â chyngor y Pwyllgor Eiddo cytunodd Corff y Cynrychiolwyr y byddai cyfraniadau'r Bwrdd Persondai'n aros ar lefelau 2020 yn 2021.

**Gwerthu eiddo cysegredig**
20/56

Yn unol â Phennod III, adran 23(2) o'r Cyfansoddiad, awdurdodwyd gwerthiant yr eiddo cysegredig canlynol gan Gorff y Cynrychiolwyr:

B.227 Cyn Eglwys Santes Catherine, Arthog
B.227 Cyn Eglwys Sant Paul, Bryncoedifor
B.243 Cyn Eglwys Sant Mihangel, Llanfihangel Tre'r Beirdd
B.243 Cyn Eglwys Santes Ana, Coedana
B.243 Cyn Eglwys Sant Tyfrydog, Llandyfrydog
M.713 Cyn Eglwys Sant Paul, Cwm

**Mynwent Sant Cynog, Penderyn**
20/57

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Eiddo fod y wal ffiniol ym mynwent Sant Cynog, Penderyn yn achosi risg sylweddol i'r cyhoedd a bod angen ei thrwsio ar frys. Roedd y gwaith trwsio'n debygol o gostio tua £120,000, swm a oedd y tu hwnt i gyrraedd adnoddau'r plwyf lleol.

Mae'n debygol y byddai angen cyllid brys gan Gorff y Cynrychiolwyr er mwyn gwneud y gwaith. Byddent yn gofyn am gyngor proffesiynol pellach.

Cytunwyd i ymgynghori â Chadeirydd Corff y Cynrychiolwyr a Chadeirydd y Pwyllgor Eiddo er mwyn awdurdodi unrhyw wariant.

**Ailagor adeiladau eglwysig**
20/58

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo ddiweddariad manwl ar y paratoadau ar gyfer ailagor adeiladau eglwysig. Rhagwelwyd y byddai Llywodraeth Cymru'n llacio'r cyfyngiadau cyfredol yn fuan er mwyn gallu ailagor adeiladau eglwysig mewn ffordd raddol ac wedi'i rheoleiddio.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo ei fod ef a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cyfrannu at drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru drwy'r Fforwm Rhyng-Ffydd a'u bod yn gallu gwneud paratoadau manwl (mewn ymgynghoriad â grŵp o archddiaconiaid) ar gyfer ailagor adeiladau eglwysig a oedd yn adlewyrchu'r mesurau a'r darpariaethau yr oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i eglwysi eu bodloni.

<u>System oleuadau traffig</u>

Pan fydd adeiladau eglwysi'n gallu ailagor byddai hynny'n digwydd yn raddol ac yn unol â system oleuadau traffig:

- Cam coch – adeiladau'n agor ar gyfer gweddi breifat yn unig. Dim gwasanaethau.
- Cam oren – gellir cynnal rhai gwasanaethau (gan gadw pellter cymdeithasol).
- Cam gwyrdd – gall yr holl wasanaethau ailddechrau (gan gadw pellter cymdeithasol).

Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw ofyniad ar adeiladau eglwysig i ailagor, ac na ddylent ailagor oni bai y gallai plwyfi gydymffurfio â gofynion hylendid a glanhau a gweithredu gweithdrefnau cadw pellter effeithiol a diogel yn yr adeilad.

<u>Canllawiau ac asesiad risg</u>

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo fod rhaid i'r plwyf dan sylw gynnal asesiad risg cyn ailagor adeilad eglwys a bod rhaid i'r archddiacon perthnasol gymeradwyo'r asesiad risg. Ffurflen rhestr wirio oedd yr asesiad risg a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru: roedd canllawiau ategol i helpu plwyfi i wneud y gwaith angenrheidiol wedi'i baratoi hefyd.

<u>Y sefyllfa gyfreithiol</u>

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol Gorff y Cynrychiolwyr mai nhw oedd yn berchen ar yr adeiladau eglwysig a bod y ddeddfwriaeth gysylltiedig yn gosod disgwyliadau ar berchnogion adeiladau i gydymffurfio â'r gofynion glanhau, hylendid a chadw pellter gofynnol. Roedd peidio â chaniatáu i adeiladau eglwysig ailagor heb i'r archddiaconiaid gymeradwyo'r asesiad risg yn dangos diwydrwydd ar ran Corff y Cynrychiolwyr fel perchennog yr adeilad. Roedd hefyd yn sicrhau bod swyddogion plwyfi lleol (rheolwyr yr adeiladau ac felly'n ysgwyddo cyfrifoldeb cyfreithiol hefyd am gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth) yn rhoi ystyriaeth briodol i'r trefniadau lleol sy'n rhaid eu gwneud ac nad oeddynt eu hunain yn agored i atebolrwydd diangen felly.

Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyhoeddiad am ailagor adeiladau eglwysig ac, am y tro, roedd gofyn i'r holl adeiladau fod ar gau. Pan fyddai'r sefyllfa honno'n newid byddai Mainc yr Esgobion yn cyhoeddi canllawiau bugeiliol gyda'r canllawiau ar ailagor a gwybodaeth am y gofynion asesu risg.

Cydnabu'r Cadeirydd y gwaith sylweddol a wnaed gan Bennaeth y Gwasanaethau Eiddo a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, gan ddiolch iddynt am eu gwaith.

## <u>BUSNES TYBIEDIG</u>

Nodwyd yr eitemau canlynol heb eu trafod.

**Pwyllgor Buddsoddi**
20/59

Nododd Corff y Cynrychiolwyr nad oedd y Pwyllgor Buddsoddi wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf Corff y Cynrychiolwyr.

**Y Pwyllgor Archwilio a Risg**
20/60

Nododd Corff y Cynrychiolwyr yr eitemau canlynol a oedd yn codi o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2020.

<u>Rhagolygon llif arian</u>

Roedd y rhagolygon llif arian hyd 30 Mehefin 2021 yn dangos y byddai'r arian parod cyfredol a oedd wedi'i gadw yn y banc ac mewn adneuon marchnad arian, sef £16 miliwn, wedi'i dihysbyddu erbyn diwedd 2020. Byddai angen defnyddio'r £10 miliwn sy'n cael ei gadw ar hyn o bryd gan y rheolwyr buddsoddi ar gyfer pryniannau eiddo buddsoddi posibl felly ac wedi hynny, byddai unrhyw ofynion arian parod pellach yn cael eu cynhyrchu o werthu buddsoddiadau yn y gyfnewidfa stoc. Byddai hyn yn arwain at ddihysbyddu'r sail gyfalaf yn barhaol a gostyngiad yn yr incwm a fyddai wedi cael ei gynhyrchu gan yr asedau hynny yn y dyfodol.

**Y Pwyllgor Pobl**
20/61

Nododd Corff y Cynrychiolwyr yr eitemau canlynol a oedd yn codi o gyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a gynhaliwyd ar 6 Mai 2020 a 8 Mehefin 2020.

<u>Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (ffyrlo)</u>

Yn dilyn cyflwyno'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU fel rhan o becyn o fesurau i ddiogelu swyddi a busnesau yn ystod pandemig y coronafeirws, nodwyd y canlynol:

- Ar 28 Ebrill 2020, roedd 10 o weithwyr Corff y Cynrychiolwyr wedi'u rhoi ar absenoldeb ffyrlo ar 100% o'u cyflog arferol;
- Roedd sawl gweithiwr arall yn debygol o gael ei ystyried ar gyfer absenoldeb ffyrlo a'i roi ar absenoldeb ffyrlo dros yr wythnosau/misoedd nesaf;

- Roedd Corff y Cynrychiolwyr wedi cymryd yr agwedd na fyddai gweithwyr ar ffyrflo'n cronni eu hawliad gwyliau cytundebol pan fyddent ar absenoldeb ffyrlo ond y byddent yn parhau i gronni hawliad gwyliau blynyddol statudol.

**Y Pwyllgor Eiddo**
20/62

Nododd Corff y Cynrychiolwyr fod cyfarfod y Pwyllgor Eiddo a gynlluniwyd ar gyfer 19 Mawrth wedi'i ganslo yn sgil y cyfyngiadau teithio a gyflwynwyd yn dilyn pandemig y coronafeirws. Cynhaliwyd cyfarfod drwy fideogynhadledd ar 10 Mehefin 2020.

**Y Comisiwn Cadeirlannau ac Eglwysi**
20/63

Nododd Corff y Cynrychiolwyr nad oedd y Comisiwn wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf Corff y Cynrychiolwyr.

**Pwyllgor Datblygu Hyfforddiant, Ffurfiant a'r Weinidogaeth**
20/64

Nododd Corff y Cynrychiolwyr fod cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor hwn yn ei fformat newydd wedi'i gynnal drwy fideogynhadledd ar 11 Mai 2020.

<u>Dynodiad cyrsiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd</u>

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Athrofa Padarn Sant, gan nodi bod yr Athrofa wedi pasio ac nad oedd yr adolygiad yn cynnwys unrhyw argymhellion. Nododd a chymeradwyodd y Pwyllgor ymateb y Pennaeth i'r adroddiad.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gyflwyniad Monitro Dynodiad Cyrsiau hefyd i'w lofnodi gan y Pennaeth ac i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Defnyddio Sêl Corff y Cynrychiolwyr**
20/65

Nodwyd bod Sêl Corff y Cynrychiolwyr wedi'i ddefnyddio ar gyfer y rhifau o 36593 to 36621 gan gynnwys y rhifau a nodir. O ganlyniad i bandemig COVID-19 a'r ffaith bod y cyfarfod yn cael ei gynnal drwy fideogynhadledd, nid oedd hi'n bosibl i'r aelodau weld y Gofrestr Sêl yn y ffordd arferol. Mae lluniau o dudalennau perthnasol y Gofrestr Sêl i'w cael ar gais.

**Y cyfarfod nesaf**
20/66

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai Corff y Cynrychiolwyr yn cyfarfod nesaf ddydd Iau 12 Tachwedd 2020. Cyn hynny, byddai staff y dalaith yn ceisio trefnu dyddiad ddechrau mis Medi ar gyfer cyfarfod y Fforwm Strategaeth Cyllid, pan fyddai Corff y Cynrychiolwyr yn cyfarfod â'r esgobion ac ysgrifenyddion yr esgobaethau.

**Gweddïau i gloi**

Offrymodd yr Archesgob weddi i gloi'r cyfarfod.